Munud i Feddwl

F

Isod mae rhywbeth i chi ddarllen! Cewch gymryd 10 eiliad i'w ddarllen! Dim mwy na 10 eiliad! Cafflo byddai hynny! Wrth ddarllen cyfrifwch sawl gwaith mae'r llythyren 'F' yn cael ei defnyddio yn y frawddeg.

Bwriwch iddi felly!

FINISHED FILES ARE THE RESULT OF YEARS OF SCIENTIFIC STUDY COMBINED WITH THE EXPERIENCE OF YEARS.

Sawl gwaith defnyddir y llythyren 'F' yn y frawddeg? Unwaith? Dwywaith? Teirgwaith? Pedair gwaith? Pump? Chwech?

Awn drwyddi gyda'n gilydd. Mae un 'F' ar ddechrau'r frawddeg, a'r ail 'F' yn '***F*ILES'**. Mae'r trydydd yn '**SCIENTI*F*IC'**. Tair 'F' sydd yn y frawddeg? Ond, a sylwoch tybed ar yr 'F' yn yr **O*F*** cyntaf, a chofiwch mai na **O*F*** arall, ac felly 'F' arall. A welsoch chi honno? Mae 'F' arall yn yr **O*F*** olaf, cyn '**YEARS'**.

Mae'r rhan fwyaf o bobl, mae'n debyg, yn gweld tair 'F' a cholli tair 'F'! Tric ydyw! Rhywbeth a gynlluniwyd i'n baglu! Seicoleg yw'r cyfan. Gan fod y rhan fwyaf ohonom wedi ein magu i ddarllen yn seinegol (*phonetically*), mae ein hymennydd yn 'gweld' dim ond yr 'F' sydd yn swnio fel 'F', nid yr 'F' sydd yn swnio fel 'V'.

Hawdd ddigon yng nghanol llif yr Ŵyl hon yw colli golwg ar Dduw; y Duw a ddaeth yn **F**aban, yr hwn sydd i ni'n **F**renin, a'r **F**raint fawr o'i ganlyn. ... ... Diolch byth am dreigladau! ... go anaml byddaf yn dweud hynny!

Os mai gwag firi yw hyn i gyd i chi, efallai bydd yr englyn hwn yn unioni'r cam:

"*Dywysog Nef, dysg i ni – yn wylaidd*
Dreulio dydd dy eni,
Rhag i fôr o wag firi
Guddio gwerth dy aberth di."
(Gwilym Tilsley 1911- 1997)

OLIE
21 Rhagfyr 2011